

*Gorchymyn arfaethedig ar gyfer craffu cyn deddfu*

---

OFFERYNNAU STATUDOL DRAFFT

---

**2010 Rhif**

**Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL**

**DATGANOLI, CYMRU**

**Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd  
Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010**

*Gwnaed*

\*\*\*

*Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1(2)*

Yn Llys Palas Buckingham, y \*\*\* dydd o \*\*\* 2010

Yn bresennol

Ei Hardderchocaf Fawrhydi'r Frenhines yn y Cyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(a), gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Dŷ'r Senedd a chymeradwywyd ef drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chan ddau Dŷ'r Senedd.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, yn unol ag adrannau 95(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn ôl cyngor a chyda chyngor Ei Chyfrin Gyngor, orchymyn fel a ganlyn:-

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir.

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "Deddf 2006" yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Diwygiadau'n ymwneud â maes tai**

**2.**—(1) Mae maes 11 (tai) o Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl mater 11.1(b) mewnosoder—

---

(a) 2006 p.32.

(b) *Mewnosodwyd Mater 11.1 gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai) 2010 (O.S. 2010/ )*.

*“Mater 11.2*

Darparwyr tai cymdeithasol.

*Mater 11.3*

Cyrff tai cymdeithasol perthnasol.

*Mater 11.4*

Deiliadaeth tai cymdeithasol ar rent a threfniadau eraill y darperir tai cymdeithasol oddi tanynt.

*Mater 11.5*

Gwarediadau—

- (a) tai cymdeithasol,
  - (b) tir sy'n cael ei ddal neu ei ddefnyddio at ddibenion tai cymdeithasol, neu mewn cysylltiad â thai cymdeithasol, ac
  - (c) tir y mae darpariaeth yn unrhyw un neu rai o'r deddfiadau canlynol yn gymwys—
    - (i) Rhan 2 o Ddeddf Tai 1985(a);
    - (ii) Rhan 5 o Ddeddf Tai 1985;
    - (iii) Pennod 2 o Ran 1 o Ddeddf Tai 1996(b);
    - (iv) Pennod 4 o Ran 1 o Ddeddf Tai 1996;
    - (v) Pennod 4 o Ran 2 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008(c);
- (i'r graddau nad yw gwaredu'r tir yn dod o fewn paragraff (a) neu (b) o'r mater hwn).

*Mater 11.6*

Darparu cyngor a chymorth heb fod yn gymorth ariannol i unigolion mewn cysylltiad â bod unigolion yn cael tai, ac mewn cysylltiad â bod unigolion yn byw mewn tai..

Mae'r mater hwn yn cynnwys, yn arbennig, gyngor a chymorth heb fod yn gymorth ariannol o ran sgiliau sy'n berthnasol i'r gallu i fyw'n annibynnol, neu'n fwy annibynnol, mewn tai.

*Mater 11.7*

Darparu gan awdurdodau lleol safleoedd carafannau i'w defnyddio gan sipsiwn a theithwyr.

*Mater 11.8*

Digartrefedd.

*Dehongli'r maes hwn*

Yn y maes hwn—

ystyr “safle carafân” yw—

- (a) tir y rhoddir carafân neu lety symudol arall (ac eithrio pabell) i sefyll arno er mwyn i bobl fyw ynddi neu ynddo, a
  - (b) tir a ddefnyddir ar y cyd â thir sy'n dod o fewn paragraff (a) o'r diffiniad hwn;
- ystyr “awdurdod lleol” yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;
- ystyr “corff tai cymdeithasol perthnasol” yw person (os nad yw, neu i'r graddau nad yw, yn ddarparydd tai cymdeithasol) a chanddo swyddogaethau o ran—
- (a) darparwyr tai cymdeithasol, neu
  - (b) tai cymdeithasol;

ond os oes gan y person rai swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â darparwyr tai cymdeithasol neu â thai cymdeithasol, mae person yn gorff tai cymdeithasol perthnasol dim ond i'r graddau y mae ei swyddogaethau'n ymwneud â darparwyr tai cymdeithasol neu â thai cymdeithasol;

---

(a) 1985 p.68.

(b) 1996 p.52.

(c) 2008 p.17.

ystyr “tai cymdeithasol” yw unrhyw dai sy'n cael eu darparu gan ddarparydd tai cymdeithasol; ystyr “darparydd tai cymdeithasol” yw—

- (a) awdurdod lleol, a
- (b) person (ac eithrio awdurdod lleol) sy'n darparu tai i bobl nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu'n ddigon da gan y farchnad dai fasnachol (p'un a yw hefyd yn darparu tai i bobl eraill ai peidio a ph'un a oes ganddo hefyd swyddogaethau sy'n ychwanegol at ddarparu tai);

ond, os oes gan awdurdod lleol neu berson arall rai swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â darparu neu ddyrannu tai, mae'r awdurdod neu berson arall yn ddarparydd tai cymdeithasol dim ond i'r graddau y mae ei swyddogaethau'n ymwneud â darparu ac â dyrannu tai.”.

### **Diwygiadau'n ymwneud â maes llywodraeth leol**

3.—(1) Diwygier maes 12 (llywodraeth leol) o Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 fel a ganlyn.

(2) Ar ôl mater 12.17(a) mewnosoder—

“*Mater 12.18*

Y dreth gyngor sy'n daladwy mewn cysylltiad ag anheddau nad prif breswylfa unigolyn mohonynt.”.

*Enw*

Clerc y Cyfrin Gyngor

---

(a) Mewnosodwyd materion 12.1 i 12.5 gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p.28), adran 235, Atodlen 17, paragraffau 1 a 2. *Mewnosodwyd materion 12.6 a 12.7 gan adran 32 o Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 (p. 20). Mewnosodwyd materion 12.8 i 12.17 gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Llywodraeth Leol) 2010 (O.S. 2010/ )*.

## **NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Mae'r Gorchymyn yn estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud cyfreithiau a elwir yn Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y cyfeirir atynt yn Neddf 2006 fel "Mesurau Cynulliad"). Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i gyfyngiadau cyffredinol ar arfer y cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw, sy'n gymwys yn rhinwedd adran 94 o Ddeddf 2006 ac Atodlen 5 iddi.

Mae Erthygl 2 yn mewnosod materion 11.2 i 11.8 a darpariaethau dehongli ym maes 11 (tai) o Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006.

Mae mater 11.2 yn ymwneud â darparwyr tai cymdeithasol.

Mae mater 11.3 yn ymwneud â chyrff tai cymdeithasol penodedig.

Mae mater 11.4 yn ymwneud â deiliadaeth tai cymdeithasol a threfniadau eraill y darperir tai cymdeithasol oddi tanynt.

Mae mater 11.5 yn ymwneud â gwarediadau tai cymdeithasol a thir sy'n cael ei ddal neu ei ddefnyddio at ddibenion cysylltiedig.

Mae mater 11.6 yn ymwneud â darparu cyngor a chymorth heb fod yn gymorth ariannol ar gyfer pobl mewn cysylltiad â bod pobl yn cael tai ac yn byw ynddynt.

Mae mater 11.7 yn ymwneud â darparu gan awdurdodau lleol safleoedd carafannau i'w defnyddio gan sipsiwn a theithwyr.

Mae mater 11.8 yn ymwneud â digartrefedd.

Mae Erthygl 3 yn mewnosod mater 12.18 ym maes 12 (llywodraeth leol) o Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Mae'r mater yn ymwneud â'r dreth gyngor sy'n daladwy mewn cysylltiad ag anheddau nad prif breswylfa unigolyn mohonynt.

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol llawn wedi ei baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn gan mai dim ond rhoi cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu yw effaith y Gorchymyn hwn.